# Cofnodion 6ed cyfarfod Grŵp Dŵr Croyw CGBC

a gynhaliwyd yn Nhŷ Ladywell, y Drenewydd am 10.30am
ddydd Mercher 16 Mawrth 2011

**Yn bresennol:**
Huw Jones (HJ) Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Janet Buckles Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Rebecca Good (RG) Pond Conservation
Gareth Davies (GD) Llywodraeth Cynulliad Cymru
Dai Roberts (DR) Riverfly Partnership Wales/Ymddiriedolaeth Afonydd Deddwyrain Cymru
Adrian Lloyd Jones (ALlJ) Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
Dusitaporn Thomas (DT) (Dŵr Cymru)

**Ymddiheuriadau:**
Tristan Hatton Ellis (THE) Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Helen Carriss
Robin Woodyatt
Emma Guy
Kris Roberts
Frank Jones
Rhian Thomas
Hannah Powell
Steve Ormerod

**1. Croeso a Chyflwyniadau**
Croesawodd HJ Adrian Lloyd Jones a Dusitaporn Thomas i'r grŵp

**2. Cofnodion/ Gweithrediadau'r 5ed cyfarfod**
- Derbyniwyd cofnodion y 5ed cyfarfod fel cofnod cywir.

**Targed a chamau gweithredu ar gyfer CGB Dyfrol yng Nghymru**

**Camau gweithredu a ddygwyd ymlaen:**
- **HJ** i gylchredeg dolen i'r daflen blocio ffosydd i aelodau'r grŵp.
- **HJ** i arwain ar gael gwybodaeth ynghylch diheintio a *Dikogammarus*
- **RG** i gylchredeg cyngor ar byllau dŵr dros dro

**3. Diweddariad ar gamau gweithredu ac adnoddau presennol yng Nghymru**

**3.1 Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol:** mae'r gwaith yn parhau

**3.2 Rhoddodd RG adroddiad ar gynnydd y prosiect Miliwn o Byllau.**

- Cafwyd gormod o geisiadau ar gyfer y trydydd cylch ariannu ac erbyn hyn mae wedi cau. Mae deg safle, gyda chyfanswm o 102 o byllau dŵr, yn cael eu hariannu.
- Bydd tîm Bioamrywiaeth AAC yn y de-orllewin yn ymdrin â phedwar safle nas ariannwyd.
- Cwblhawyd prosiectau ar bob un o safleoedd y cylch cyntaf yng Nghymru. Mae dau o safleoedd yr ail gylch dal i fod ar waith.
- Mae'n bosibl y bydd arian ar gael ar gyfer hyfforddiant, gyda Moel y Ci a Chynffig yn lleoliadau posibl.
- Mae'n bosibl y bydd cynghorwyr amgylcheddol wedi'u contractio o dan gynllun Glastir ar gael i weithio ar elfennau targededig o Glastir yn yr haf eleni.
- Mae gwaith adrodd ar greu pyllau dŵr yn parhau.
- Gwnaed cais am safleoedd pyllau blaenllaw i Amgylchedd Cymru cyn y dyddiad cau ym mis Chwefror, ond ni chafwyd ateb hyd yma. **Cam gweithredu**: HT a THE i dynnu sylw at hyn.
- Ni ellir gwneud gwaith o dan y prosiect Ponds for People os yw arian ar gael eisoes.

**3.3 Rhoddodd DR adroddiad ar brosiectau'r Ymddiriedolaeth Afonydd**

- Ni chafodd un safle ar afon Tefeidiad ei archwilio ar gyfer *Potomanthus* gan fod yr afon yn llifeirio.
- Ni chwblhawyd yr arolygon *Potomanthus* gan fod yr amserlen wedi golygu nad oedd modd cael arian, ond efallai y bydd modd arolygu afonydd Gwy ac Wysg yng ngwanwyn 2011.
- Mae'n bosibl y bydd cyfle'n codi i ailgyflwyno'r *Potomanthus* ar rai safleoedd. Mae angen poblogaeth gronfa rhag ofn y ceir bygythiad i boblogaeth afon Gwy.
- Mae ffeiliau a chardiau post rhywogaethau'n cael eu paratoi a chânt eu cyhoeddi'n fuan.
- Holwyd am y posibilrwydd y gallai rhywogaeth pryf gwellt *Isogenus* fod yn ddiflanedig yn y gogledd. Awgrymodd HJ gyfle i gydweithio ar arolygon, ac y dylid cysylltu â Dave Andrew

**3.4 Rhoddodd GD ddiweddariad ar Glastir**

- Mae'r cais ar gyfer elfen Cymru gyfan Glastir wedi cau erbyn hyn.
- Mae'r cynllun wedi cael rhywfaint o gyhoeddusrwydd negyddol, ond bernir ei fod yn llwyddiant o ran nifer y ceisiadau a ddaeth i law.
- Mae'r gweinidog wedi cyhoeddi adolygiad, ac mae adroddiad ac ynddo argymhellion i ddod ym mis Mawrth 2011.
- Mae angen edrych ar ymarferoldeb y manylebau a'u gwneud yn fwy deniadol i ffermwyr.
- Bydd yr elfen dargededig yn cael ymweliadau cyntaf gan reolwr cyswllt yn yr haf eleni.
- Bydd nifer y cytundebau'n dibynnu ar y nifer sy'n cymryd rhan, ac mae'r ffaith y caiff arian Tir Mynydd ei dalu hyd 2012 yn effeithio ar honno.
- Bydd ymgeiswyr yn cael y cyfle i adolygu ceisiadau ac i wneud diwygiadau.

- Bydd gan gytundebau Tir Gofal opsiwn i ymestyn hyd at 2013, ond bydd yn rhaid dewis opsiynau ychwanegol i symud i gynllun Glastir ar dir arall.
- Mae rhai o'r opsiynau Cymru gyfan yn cynnwys plannu coed.
- Caiff yr elfen creu coetir ei rhedeg gan CCC fel cynllun annibynnol o dan Glastir. Ei nod yw cyrraedd 100,000ha o dir, ac mae 62 wedi'u sicrhau eisoes.
- Mae'n bosibl y bydd ffermwyr yn teimlo ei bod yn werth prynu tir ymylol i blannu coed.
- Mae'n bosibl y bydd lleihau gwaith rheoli rhedyn yn dilyn y gwaharddiad arfaethedig ar Asulux yn arwain at goetir yn disodli rhedyn.
- Ar gyfer plannu er bioamrywiaeth, nid oes rhwymedigaeth i blannu rhywogaethau coed penodol, ond mae cyngor arbenigol ar gael.
- Rhaid i unrhyw ddarn o dir sy'n fwy na 3ha fod â rhif cyfeirnod cwsmer, ond gellir cofrestru unrhyw ddarn o dir sy'n fwy na 0.25ha.

**3.5 Rhoddodd DT adroddiad ar faterion yn ymwneud â Dŵr Cymru**

- Mae Dŵr Cymru yn edrych ar y posibilrwydd o gydweithio â CCGC ar brosiect cau ffosydd yn nalgylch Alwen.
- Mae arian ar gael gan Ofwat i ymchwilio i wella ansawdd dŵr. Caiff £100,000 ei roi i brosiect Corsydd Môn ac mae'n bosibl y bydd £100,000 ar gael ar gyfer y gwaith uchod yn nalgylch Alwen. Byddai hyn yn gadael £1.8 miliwn i'w wario ar ymchwilio dros 5 mlynedd yn y cynllun busnes.
- Mae gwaith yn cael ei wneud ar haenau'r System Gwybodaeth Ddaearyddol i gyd-fynd â dalgylchoedd CCGC/AA â blaenoriaeth o ran ansawdd dŵr a swm dŵr, er mwyn gwella'r buddion i gynllun Glastir.
- Gallai strategaeth Dŵr Cymru i leihau dŵr wyneb ddarparu gwerth ychwanegol o ran ansawdd dŵr a swm dŵr.
- Ni all Dŵr Cymru roi cymhorthdal i ffermwyr ar ffurf cyfraniadau uniongyrchol.

**3.6 Rhoddodd HJ ddiweddariad ar faterion yn ymwneud ag AAC**

- Bydd AAC yn mabwysiadu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr fel polisi craidd a bydd Canlyniad 21 yn gysylltiedig. Bydd y targedau'n newid y flwyddyn nesaf a'r prif darged bydd adfer safleoedd gwarchodedig.
- Bydd dull cyfannol o reoli dalgylchoedd afonydd, gan ganolbwyntio ar lygrwyr unigol.
- Bydd mwy o gysondeb o ran perchnogaeth ardaloedd gyda rhith-dimau i gyflawni gwaith y Gyfarwyddeb ar fonitro tir e.e. cerdded afon.
- Bydd cyfleoedd i gynyddu canlyniadau'r Gyfarwyddeb trwy brosiect Hiraethog a chyfleoedd ar gyfer prosiectau aml-bartner.
- Mae gwaith dichonoldeb o ran uno gyda CCGC a CCC yn parhau.
- Mae cynnig LIFE afon Eden gyda CCGC yn bartner, a Scottish Natural Heritage yn arwain, yn mynd ymlaen a dylai gynnwys gwaith oddi ar y safle i gyflenwi buddion o ran ansawdd dŵr. Mae'n bosibl y bydd modd denu ffermwyr at gynllun Glastir.

**4. Diweddariad ar ailgyflwyno afancod yng Nghymru**

Rhoddodd ALlJ gyflwyniad ar adroddiad Menter Asesu Afancod Cymru

- Caiff afancod eu tynnu o'r rhestr rhywogaethau a warchodir yn ystod yr adolygiad nesaf gan fod y niferoedd yn Ewrop yn cynyddu.
- Gellir saethu afancod o dan randdirymiad.
- Gellir symud neu addasu argaeau os ydynt yn rhwystro llwybrau mudo neu'n achosi difrod.
- Mewn gwledydd eraill, gellir dangos bod presenoldeb afancod yn arwain at gynnydd mewn niferoedd eogiaid.
- Mae'n bosibl na fydd angen trwydded i dynnu argaeau, ond byddai angen trwydded i symud afancod.
- Holwyd ynghylch monitro niferoedd pysgod cyn rhyddhau afancod er mwyn cymharu ffigurau o waith monitro ar ôl eu rhyddhau.

Cyflwynodd DR sleidiau'n dangos difrod gan afancod ac argaeau oedd yn rhwystrau i bysgod yn yr Alban.

**5. Materion polisi**

Ni chodwyd unrhyw faterion polisi.

**6. Materion rhywogaethau**

Caiff ymholiad ALlJ ynghylch gwarchod llygod pengrwn y dŵr ac ardaloedd allweddol ei drosglwyddo i Rob Strachan.

**7. Cylch gorchwyl LWBP**

Derbyniwyd y cylch gorchwyl drafft gyda'r argymhellion canlynol:

- Mae angen nodi'r personau cyswllt allweddol.
- Yn yr adran ar fonitro academaidd, angen newid y geiriad sy'n ymwneud â ffrwd gwaith Cymru Fyw, tystiolaeth wyddonol wrth gyflenwi polisi. Dylid newid 'sicrhau' i 'hybu'.
- Gallai gofyn i Ganolfannau Cofnodion Lleol (CCLl) gydgysylltu'r gwaith adrodd ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol ychwanegu gwerth at wasanaethau'r canolfannau.
- Mae angen egluro cynrychiolaeth y CGBLl.

**Cam gweithredu:**

- **JB** i gael gwybod pa aelodau o'r grŵp CGBC Dŵr Croyw sydd hefyd yn aelodau o Grŵp Arbenigwyr Rhywogaeth.
- Dylid cynnwys camau gweithredu'r grŵp ar y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth (BARS).

**8. Diweddariad ar Rywogaethau Goresgynnol**

**Cragen fylchog Asia:** i gael mwy o wybodaeth cysylltwch â Gabriel Wyn.
***Dikerogammarus*:** Rhoddodd HJ grynodeb o'r sefyllfa bresennol.

- Mae'n cydfodoli â misglod rhesog, ac mae gan y ddwy rywogaeth batrymau cuddliw tebyg.
- Mae misglod yn darparu swbstrad da.

- Mae’n bosibl bod y rhywogaeth yng Nghaerdydd ers nifer o flynyddoedd.
- Mae’n disodli rhywogaethau brodorol.

**Jac y Neidiwr:** Prosiectau gwaredu i barhau yn nyffrynnoedd Alyn a Chwiler gyda rhywfaint o arian oddi wrth AAC.

**Cam gweithredu:**

- **HJ** i gylchredeg gwybodaeth oddi wrth Mike Complin am gragen fylchog Asia.
- **THE** i godi pwnc gorfodi bioddiogelwch gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**9. Personau cyswllt LlCC ar gyfer y Grŵp Ecosystem Dŵr Croyw**
Dylid dylanwadu ar ddau faes pwnc sef rheoli ar raddfa dalgylch afon a’r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

**Camau gweithredu:**
**HJ a THE** i ddod o hyd i bersonau cyswllt LlCC ar gyfer pynciau a ddewiswyd.
**DT** i godi’r meysydd â blaenoriaeth gyda Diana Reynolds yng nghyfarfod nesaf y grŵp llywio.

**10. Diweddariad ynghylch Grantiau**
I’w drafod yn y cyfarfod nesaf.

**11. Unrhyw fusnes arall**
Codwyd mater dewis cynrychiolydd CGBLl newydd i’r grŵp yn lle Kate Williamson gan mai Kris Roberts yw’r unig gynrychiolydd CGBLl yn y grŵp ar hyn o bryd.

**Cam gweithredu: HJ a THE** i drafod yr uchod cyn y cyfarfod nesaf.

**11. Dyddiad y cyfarfod nesaf.**
Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Nhŷ Ladywell ar 14 Medi 2011.